# Helfa Drysor Siôn Corn

## Allwch chi helpu i ddod o hyd i dalebau Nadolig Yr Wyddgrug yn Llwyr?

Does gan Siôn Corn ddim llawer o amser i fynd i siopa, yn enwedig felly adeg y Nadolig. Felly eleni mae o wedi trefnu pethau ymlaen llaw trwy brynu talebau Yr Wyddgrug yn Llwyr i Mrs Sioned Corn. Wedyn bydd hi'n gallu mwynhau eu gwario yn un neu ragor o'r 88 busnes bendigedig yn yr Wyddgrug sy'n derbyn talebau Yr Wyddgrug yn Llwyr. Ond mae Ellyllon Bach Siôn Corn wedi bod yn eithaf direidus ac wedi sleifio i mewn i'r gweithdy, a chymryd talebau Siôn Corn a'u cuddio o gwmpas Canol Tref yr Wyddgrug!

Does gan Siôn Corn druan mo'r amser i chwilio amdanynt ei hunan. Wedi'r cwbl mae o wrthi'n brysur yn paratoi'r holl deganau ar gyfer plant yr Wyddgrug ac felly allwch chi helpu i ddod o hyd i'r talebau sydd wedi'u cuddio?

Mae gan bob un o'r talebau het Nadoligaidd a rhif arnynt a byddant i'w gweld yn ffenestr flaen 15 siop neu fusnes yn yr Wyddgrug o ddydd Sadwrn 4 Rhagfyr ymlaen.

Mae Siôn Corn yn gofyn ichi wneud rhestr sy'n dweud ble y mae pob un o'i dalebau Yr Wyddgrug yn Llwyr. Bydd yr holl gynigion cywir yn cael eu cynnwys mewn cystadleuaeth tynnu tocyn am wobr. Bydd un unigolyn yn ennill gwerth £50 o dalebau Yr Wyddgrug yn Llwyr a bydd 5 ail orau yn derbyn gwerth £10 o dalebau Yr Wyddgrug yn Llwyr.

Bydd talebau Nadolig Siôn Corn i'w gweld yn y ffenestri o ddydd Sadwrn 4 Rhagfyr tan ddydd Mercher 15 Rhagfyr. Wedi hynny bydd y gystadleuaeth yn dod i ben a chaiff yr holl gynigion eu rhoi mewn 'het' er mwyn tynnu'r tocynnau am wobr. Byddwn yn cysylltu â'r enillwyr er mwyn iddynt allu dod i nôl eu talebau buddugol Yr Wyddgrug yn Llwyr cyn y Nadolig. Mae croeso i bawb o bob oedran gymryd rhan yn yr Helfa Drysor; fodd bynnag dim ond un cynnig y pen yr ydym ni'n ei ganiatáu.

Byddwch cystal â phostio'ch cynigion, gan gynnwys eich enw a'ch rhif ffôn cysylltu (a'ch oedran os ydych chi'n llai nag 17 oed) at Gyngor Tref yr Wyddgrug, Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug CH7 1AB neu gallwch e-bostio rhestr o ble y mae pob un o'r talebau Nadolig â rhif arnynt i'w gweld gan gynnwys rhif y daleb, enw'r siop/busnes ac ym mha stryd y maent, ynghyd â'ch gwybodaeth cysylltu, at events@moldtowncouncil.org.uk. Cofiwch mai'r dyddiad cau yw 15 Rhagfyr 2021.

Pob lwc ichi a gobeithio y cewch chi hwyl wrth ddod o hyd i dalebau Nadolig Yr Wyddgrug yn Llwyr,

Cariad mawr, *Siôn Corn xxx*






**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am dalebau Yr Wyddgrug yn Llwyr a sut i'w prynu, trwy fynd at www.totallymoldvouchers.org.uk**

# Helfa Drysor Siôn Corn

Enw: ……………………………………………………………………………… Oedran os ydych yn llai nag 17 oed:…………………….

Rhif Ffôn Cysylltu:………………………………………………………………………………….

E-bost Cysylltu: ………………………………………………………………………………….

**Rwyf wedi dod o hyd i rifau'r talebau canlynol:-**

| Rhif y Daleb | Yn y Siop/Busnes yma: | Yn y stryd hon . . . |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| 5 | | |
| 6 | | |
| 7 | | |
| 8 | | |
| 9 | | |
| 10 | | |
| 11 | | |
| 12 | | |
| 13 | | |
| 14 | | |
| 15 | | |

Bydd yr holl gyfeiriadau e-bost sy'n cael eu rhoi inni yn cael eu cadw ar gronfa ddata e-bost Cyngor Tref yr Wyddgrug, oni bai eich bod yn cadarnhau fel arall, ni fydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn rhoi eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti. Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug ond yn defnyddio'ch cyfeiriad e-bost er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am newyddion a digwyddiadau gan Gyngor Tref yr Wyddgrug (ar gyfartaledd byddwn yn anfon 1-3 e-bost y mis). **Os nad ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth o'r fath, ticiwch yma** ◯

Dim ond ar gyfer y pwrpas a nodwyd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio. Mae gwybodaeth ychwanegol am brosesu'ch data i'w gweld ar ein gwefan yn http://www.moldtowncouncil.org.uk/Mold-land/Default.aspx neu oddi wrth Gyngor Tref yr Wyddgrug 01352 758532